# Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Ebrill 2023 – Mawrth 2024

Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl
Residential Property Tribunal

# Cynnwys

| | | |
|---|---|---|
| **Rhagair** | | 3 |
| **Adran 1** | Trefniadau Goruchwylio Cydymffurfiaeth | 4 |
| **Adran 2** | Asesu Cydymffurfiaeth | 4 |
| **Adran 3** | Adrodd ar waith a wnaed yn 2023-2024 | 6 |
| **Adran 4** | Gwaith sydd i ddod 2023-2024 | 7 |

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50761, ISBN digidol 978-1-83625-691-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

Dyma wythfed adroddiad blynyddol Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru ("y Tribiwnlys") ar ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ers i'r Safonau ddod i rym ar 30 Mawrth 2017. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024.

Mae dwy ran i'r Tribiwnlys, sef yr ysgrifenyddiaeth a'r Aelodau. Mae'r ddwy ran yn gweithio gyda'i gilydd, yn ystod y broses apelio a hawlio, gan wneud tasgau gwahanol. Yr aelodau yw:

- Llywydd y Tribiwnlys, hynny yw, yr Arweinydd Barnwrol;
- Is-lywydd;
- Cadeiryddion sy'n Gyfreithwyr;
- Aelodau Proffesiynol sy'n Syrfewyr Siartredig;
- Aelodau Lleyg.

Mae'r Tribiwnlys, ei aelodau a'i benderfyniadau yn annibynnol ar y Llywodraeth. Mae gan y Tribiwnlys 6 aelod (3 aelod cyfreithiol, 2 syrfëwr ac un aelod lleyg) sydd â sgiliau Cymraeg cryf, a gellir cynnull panel llawn (hynny yw, cadeirydd cyfreithiol, aelod proffesiynol ac aelod lleyg) a all glywed a chynnal gwrandawiad llawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Is-lywydd y Tribiwnlys yn siaradwr Cymraeg rhugl.

Mae'r ysgrifenyddiaeth yn gyfrifol am weinyddu tribiwnlysoedd ac yn ymdrin â phob ymholiad ffôn a phob ymholiad ysgrifenedig. Gweision sifil yw'r rhain a gyflogir gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn rhan o Uned Tribiwnlysoedd Cymru, sy'n gyfrifol am weinyddu chwe thribiwnlys datganoledig ledled Cymru. Mae gan dîm yr ysgrifenyddiaeth ddau aelod sy'n rhugl yn y Gymraeg, yn ogystal â'r Uwch Reolwr Gweithrediadau a Phennaeth Tribiwnlysoedd Cymru sydd ill dau hefyd yn rhugl.

**Dyddiad cyhoeddi:** 30/09/2024

**Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau:** rpt@llyw.cymru

# Adran 1 – Trefniadau Goruchwylio Cydymffurfiaeth

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi'i baratoi gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru ac mae wedi'i gymeradwyo gan Lywydd Dros Dro y Tribiwnlys Eiddo Preswyl.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ymddangos ar wefan y Tribiwnlys ac mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cael gwybod ei fod wedi cael ei gyhoeddi.

# Adran 2 – Asesu Cydymffurfiaeth

## Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Mae'r Tribiwnlys yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau cyflenwi gwasanaethau drwy'r camau canlynol:

- Rhoi canllawiau i staff ar ymateb i ohebiaeth, ateb y ffôn ac ateb negeseuon e-bost.
- Darparu templedi ar gyfer llythyrau sy'n cynnig cyfle i ddefnyddwyr y Tribiwnlys gael gohebiaeth yn Gymraeg. Mae llythyrau a negeseuon e-bost oddi wrth y Tribiwnlys hefyd yn cynnwys brawddeg safonol yn datgan bod gohebiaeth yn cael ei chroesawu yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
- Mae'r holl ddogfennau a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys ffurflenni cais a dogfennau canllaw. Mae fersiynau Saesneg y dogfennau a'r ffurflenni a gynhyrchir gan y Tribiwnlys hefyd yn cynnwys brawddeg safonol sy'n datgan eu bod ar gael yn y Gymraeg, ac y gall y cyhoedd gyflwyno gwybodaeth i'r Tribiwnlys yn y Gymraeg.
- O fis Mawrth 2024, mae cwestiwn dewis iaith newydd wedi'i gynnwys yn y ffurflenni, ac ail gwestiwn nad yw'n orfodol yn gofyn "Os ydych chi'n gallu siarad Cymraeg ac wedi nodi Saesneg fel eich dewis iaith, byddem yn croesawu adborth i gael gwybod am yr hyn sy'n eich rhwystro rhag defnyddio'r Gymraeg mewn Tribiwnlys".
- Sicrhau bod pawb yn deall bod darpariaeth ar gyfer cynnal gwrandawiadau yn Gymraeg ac y gall unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawiad.
- Mae pob tudalen o'n gwefan ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- Cyflwynodd Llywodraeth Cymru system ffôn newydd drwy Microsoft Teams ym mis Ebrill 2021. Mae'r Tribiwnlys yn defnyddio'r system newydd hon i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â safonau 8 a 9 drwy sicrhau bod gan ddefnyddwyr y Tribiwnlys yr opsiwn o bwyso 1 i siarad ag aelod o'r tîm yn Gymraeg a phwyso 2 i siarad ag aelod o'r tîm yn Saesneg.

## Defnyddio ein gwasanaethau yn 2023-2024

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y ceisiadau a ddaeth i law | 104 |
| Nifer y ceisiadau a gafodd eu prosesu yn Gymraeg | 0 |
| Cyfanswm y gwrandawiadau a gynhelir | 19 |
| Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yn Gymraeg | 0 |

## Gwefannau

Oherwydd newidiadau i'r system nid ydym yn gallu pennu nifer yr ymweliadau â gwefan y Tribiwnlys ar gyfer chwarter cyntaf 2023-24. Felly, mae'r ffigurau a nodwyd yn cwmpasu chwarteri 2-4 yn unig, rhwng 1 Gorffennaf 2023 a 31 Mawrth 2024.

Nodir isod ddadansoddiad o faint o weithiau yr ymwelwyd â thudalen hafan Gymraeg a Saesneg y Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru rhwng 1 Gorffennaf 2023 a 31 Mawrth 2024.

| | Saesneg | Cymraeg | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ymweliadau â'r dudalen | 9,252 | 309 | 9,561 |

## Safonau Llunio Polisi

Mae'r Tribiwnlys yn arfer ei swyddogaethau statudol yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ei lywodraethu. Nid yw o fewn cylch gwaith y Tribiwnlys i ddatblygu polisi. Er hynny, rydym yn ystyried effaith ein penderfyniadau gweithredol ar ddarpariaeth ein gwasanaethau yn Gymraeg.

## Safonau Cadw Cofnodion

Mae Hysbysiad Cydymffurfio'r Tribiwnlys (sy'n manylu ar y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Llunio Polisi a Chadw Cofnodion y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gydymffurfio â hwy) wedi'i gyhoeddi ar wefan y Tribiwnlys: www.tribiwnlyseiddopreswyl.llyw.cymru/sites/residentialproperty/files/2019-01/welsh-lang-compliance-notice-cy.pdf.

Rydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion a ddaw i law, os oes rhai, sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r Safonau.

## Cwynion

Ni chafwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â gweithredu'r Safonau yn ystod y cyfnod adrodd.

# Adran 3 – Adrodd ar waith a wnaed yn 2023-2024

| | Cam gweithredu | Cynnydd |
|---|---|---|
| 1. | Cynnal gwaith i gynllunio system hunanreoleiddio o ran cydymffurfio â safonau'r Gymraeg ar gyfer y Tribiwnlys. | **Amcan wedi'i gwblhau**. Lluniwyd dau holiadur 'ticio blychau', un ar gyfer clercod ac un ar gyfer y rheolwr busnes. Mae'r rhain yn helpu i brocio'r cof a gwirio gwybodaeth am Safonau'r Gymraeg. Wedi'i weithredu 2023. |
| 2. | Cynhyrchu dogfen ganllaw, gan roi cyfarwyddiadau i'r Tribiwnlys ar sut i gael gafael ar wasanaethau cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd, ac ar hwyluso cyfarfodydd dwyieithog drwy blatfformau fideo-gynadledda. | **Amcan wedi'i gwblhau**. Mae dogfen ganllaw wedi'i chwblhau, ac mae fframwaith cyfieithu newydd ar waith. Wedi'i weithredu 2024. |
| 3. | Meithrin cysylltiadau â defnyddwyr gwasanaethau i nodi'r hyn sy'n eu rhwystro rhag rhyngweithio â'r Tribiwnlysoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. | **Parhau i gyflawni'r amcan**. Cynlluniwyd proses i gasglu gwybodaeth gan ddefnyddwyr (gweler 4ydd pwynt bwled o dan Safonau Cyflenwi Gwasanaethau). Bydd data sy'n cael eu casglu o fis Mawrth 2024 yn cael eu dadansoddi ar ôl derbyn digon o wybodaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau. |
| 4. | Nodi gwelliannau y gellir eu gwneud a'u rhoi ar waith yn ystod 2023-24 i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ein Tribiwnlysoedd. | **Parhau i gyflawni'r amcan**. (gweler uchod) Rydym hefyd wedi nodi gwelliannau y gellir eu gwneud i'r wefan, a fydd yn galluogi hyrwyddo'r Gymraeg. Rydym yn gweithio gyda'n hadran TG ar hyn o bryd i weithredu'r gwelliannau hynny. |
| 5. | Darparu hyfforddiant i holl aelodau'r Tribiwnlys a staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r defnydd o'r Gymraeg yn ei gwrandawiadau ac mewn perthynas â chyfathrebu ehangach, ac o rwymedigaethau'r Tribiwnlysoedd o dan Safonau'r Gymraeg. | **Amcan wedi'i gwblhau**. Darparwyd hyfforddiant ar Safonau'r Gymraeg ac i godi ymwybyddiaeth aelodau'r Tribiwnlys amdanynt yn ystod cynhadledd flynyddol ym mis Tachwedd 2023. A darparwyd hyfforddiant i staff gweinyddol Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn ystod y Diwrnod Hyfforddi Tîm ym mis Medi 2023. |

# Adran 4 – Gwaith sydd i ddod 2023-2024

1. Meithrin cysylltiadau â defnyddwyr gwasanaethau i nodi'r hyn sy'n eu rhwystro rhag rhyngweithio â'r Tribiwnlysoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

2. Nodi gwelliannau y gellir eu gwneud a'u rhoi ar waith yn ystod 2024-25 i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn ein Tribiwnlysoedd.

3. Asesu cydymffurfiaeth y Tribiwnlys â Safonau'r Gymraeg yn erbyn llinell sylfaen a sefydlwyd yn 2023-24.

4. Paratoi Dogfen sy'n amlinellu gofynion Safonau'r Gymraeg i'w rhannu â holl Aelodau'r Tribiwnlys.